Wele wrth y drws yn curo

Caneuon Ffydd: Rhif 317

Wele wrth y drws yn curo,
Iesu, tegwch nef a llawr;
clyw ei lais ac agor iddo,
paid ag oedi funud awr;
agor iddo,
mae ei ruddiau fel y wawr.

Parod yw i wneud ei gartref
yn y galon euog, ddu
a'i phrydferthu â grasusau,
gwerthfawr ddoniau'r nefoedd fry;
agor iddo,
anghymharol Iesu cu.

O mor felys fydd cael gwledda
ar yr iachawdwriaeth rad,
wedi gadael byd o drallod,
draw yn nhawel dŷ ein Tad;
agor iddo,
cynnig mae y nef yn rhad.

IEUAN O LEYN, 1814–93

MYFYRDOD

Ein cymell ni a wna Ieuan o Leyn yn ei emyn i agor y drws i'r un sy'n curo wrtho. Ceir y ddelwedd hon yn llyfr Datguddiad 3:20 lle mae Iesu'n ei gynnig ei hun i'r eglwys yn Laodicea ac yn cynnig dod i mewn atyn nhw i swpera ac i fwynhau'r gymdeithas agos honno sydd i'w chael pan fyddwn yn rhannu pryd wrth fwrdd bwyd. Mae'r darlun yn un cyfarwydd iawn inni ac yn un a gafodd ei boblogeiddio i raddau helaeth iawn hefyd gan yr arlunydd Holman Hunt a ddarluniodd yr adnod hon ar ganfas, darlun a gludwyd i bedwar ban byd i'w arddangos pan gafodd ei baentio

gyntaf ac mae'r darlun cyntaf hwnnw i'w weld heddiw yn eglwys Sant Paul yn Llundain. Darluniodd Iesu fel goleuni'r byd yn curo ar y drws gyda'i law dde a llusern yn ei law chwith yn goleuo'i wyneb a'i wisg a'i goron frenhinol – nid coron o ddrain bellach, ond ei goron euraid fel brenin nef. Gofynnodd cyfaill i'r artist iddo pam nad oedd wedi gosod clicied neu fwlyn ar y drws yn y darlun, ac atebodd yr artist mai bwriadol oedd hynny gan mai o'r tu fewn yn unig oedd datgloi y drws; drws y galon ydoedd.

Efallai'n wir hefyd y clywn ni yn yr emyn hwn gan Ieuan o Leyn, neu John Hughes, Wrecsam, o roi ei enw cyffredin iddo, adlais o dipyn o'r 'hwyl' Gymreig yr eid iddi gan bregethwyr yn ein gwlad slawer dydd, sef creu darlun manwl ar gyfer y gwrandawr ac yna apelio ato a'i gymell yn daer. Mae sôn o hyd am Jiwbili Young, pan oedd ar ymweliad â chapel y Bedyddwyr yn Licswm yn Sir y Fflint, yn defnyddio'r darlun hwn o Iesu'n sefyll wrth y drws ac yn curo, gan erfyn am dawelwch wedyn droeon i'w glywed yn curo. Wedi iddo gymell y rhai oedd yno i godi ac i agor y drws fwy nag unwaith, fe gododd un gŵr o'i sedd a mynd at ddrws y capel a'i agor, gan lwyr gredu bod Iesu yno'n sefyll yn y cnawd megis, gan mor fyw roedd Jiwbili Young wedi eu cymell nhw trwy ei ddarlun.

Mae'r cymhelliad yn un taer ac Iesu ei hun sy'n cynnig, yn gyntaf i'w Eglwys, ond hefyd i bob un ohonom, ar inni godi ac agor drws 'y galon euog, ddu' iddo a gadael iddo ef ei goleuo hi 'a'i phrydferthu â grasusau' y nefoedd ei hun.

GWEDDI

O Dad graslon, yr wyt yn cynnig popeth i mi, dim ond imi agor drws fy nghalon i dy Fab Iesu, goleuni'r byd, sydd yn abl hefyd i oleuo fy mywyd i'n gyfan. Diolch iti am dy amynedd gyda mi, Iesu, nad wyt ti wedi fy rhoi heibio, ond yn parhau i sefyll wrth y drws a churo. Helpa fi i ymateb i dy gynnig hael ac i fwynhau'r wledd fawr sydd gennyt ti ar fy nghyfer wrth ddod i berthynas fywiol â thi dy hun. Amen.